YSGOL I D HOOSON

Cynllunio ar gyfer Cwricwlwm yr ysgol 2022







Parch Cymraeg Ein gorau













Ychydig am yr ysgol

Ysgol gynradd ddwyieithog ddynodedig yw Ysgol I. D. Hooson. Lleolir yr ysgol ym mhentref Rhosllanerchrugog ar gyrion tref Wrecsam. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys disgyblion oed meithrin. Mae 11 dosbarth oed cymysg yn yr ysgol gan gynnwys dosbarth ar gyfer plant meithrin. Mae tua 2% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 7% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.



Cytunwyd ar ein gweledigaeth gan ystyried barn disgyblion,, rhieni, staff a Llywodraethwyr

Gweledigaeth

Ein cwricwlwm yw'r hyn y bydd ein dysgwyr yn ei brofi yn yr ysgol hon.

Bydd ein cwricwlwm yn y hybu annibynniaeth, hyder ac ymwybyddiaeth ein plant fel unigolion, o'r byd o'n cwmpas, diwylliant a threftadaeth.

Byddwn yn rhoi cyfleoedd creadigol, cyfoethog ac eang i'r plentyn sydd yn ei galluogi i ymarfer a datblygu medrau gydol oes.

Bydd y cyfnod yn yr ysgol yn paratoi ein plant at fywyd mewn byd sydd yn newid, er mwyn eu galluogi i ddefnyddio profiadau ysgol wrth ymateb i weithgareddau bywyd go iawn.

Ein proses gynllunio



Wrth gynllunio ein cwricwlwm, byddwn yn dathlu'r iaith Gymraeg, ei diwylliant a'i threftadaeth. Mae ein cwricwlwm yn cynnwys amryw o hanfodion – profiadau a gwybodaeth yw rhain y credwn sy'n rhan allweddol o daith y plentyn drwy Ysgol I D Hooson.



Dyddiadau dathlu.

Hapusrwydd

Iechyd a Lles

Cynhwysiant

Ein iaith.
Dwyieithrwydd
Ein tafodiaith

Be dwi'n wybod am y byd ?

Arweinyddion

Beth yw'r Urdd?

Bod yn greadigol

Ein cymuned
Ein Pentref
Ein gwlad

Be dwi'n wybod am Gymru ?

Ysgol y Goedwig – dysgu tu allan

Pwy oedd I D Hooson ?



Daw ein **gwerthoedd** yn rhan allweddol o'n gwaith o gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae'r gwerthoedd hyn yn llifo ar draws ein prosesau o gynllunio gweithgareddau ysgogol a symbylus fydd yn datblygu a gwella pob unigolion, ac yn cyfrannu at wireddu ein gweledigaeth fel ysgol ar gyfer pob unigolyn.



EIN GWERTHOEDD

Parch ac ymddiriedaeth	Lles a Gofal	Hapusrwydd a Mwynhad	Gwytnwch a hyder	Cymru a Chymreictod	Cymuned a Chynefin	Mentro a Chreadigol	Cefnogi a Chydweithio

EIN HYMDDYGIAD

Rydym yn defnyddio hunan barch fel man cychwyn i sut ydym yn parchu eraill. Rydym yn modelu parch drwy brofiadau eang ac yn datblygu ymwybyddiaeth o'r hyn a olygir o barch.	*Mae plant yr ysgol yn datblygu yn unigolion annibynnol, sydd wedi profi addysg sylfaen gadarn o fewn awyrgylch ddiogel ac afalgar.*	*Rydym yn falch o'n dysgwyr, o lais ein disgyblion ac o'r mwynhad, y boddhad a'r ysgogiad a roddir iddynt drwy brofiadau cyfoethog a chreadigol amrywiol.*	*Rydym yn barod i'n dysgwyr arbrofi a rhoi cynnig ar bethau newydd, i arbrofi, i fod yn barod i fethu ac i ddal ati mewn sefyllfaoedd sydd yn cynnig mwy o her.*	*Rydym yn falch o'n Cymreictod ac o'n diwylliant Cymreig. Mae'n rhan greiddiol o fywyd a gwaith ein hysgol.*	*Rydym yn barchus o'r cymuned yr ydym rhan ohoni, ac yn sicrhau fod ymwybyddiaeth o'n cynefin yn rhan o brofiadau dysgu yr ysgol.*	*Rydym yn hybu ein gilydd i fod yn unigolion hyderus ac i fod yn barod i fentro, gan ddod yn berfformwyr gydol oes.*	*Rydym yn annog pawb i fod yn barod i gydweithio oddi mewn a thu allan i gymuned ein hysgol.*














Mae ein ***hanfodion a'n gwerthoedd*** yn cysylltu'n agos. Mae ein gwerthoedd yn treiddio ar draws y profiadau amrywiol a gynllunir, gyda 4 diben y cwriwclwm yna yn bwydo craidd ein cynllunio.



Anghenion Dysgu Ychwanegol

Fel ysgol byddwn yn sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion pob disgybl drwy sicrhau fod y dysgu a'r addysgu o'r safon uchaf. Mae ein darpariaeth 'universal' yn cynnwys addysgu dosbarth cyfan, gwahaniaethu effeithiol, gwaith cefnogi mewn grwp yn ogystal a ymyraethau penodol grwpiau bach, gyda lefel ymyraeth a chefnogaeth yn cael ei arwain o waith asesu parhaus gofalus. Rydym hefyd yn cydweithio gyda asiantaethau allanol wrth ymateb i anghenion dysgu ychwanegol

Iechyd a Lles

Mae Iechyd a Lles pob unigolyn yn ffocws barhaus oddi mewn i bopeth a wnawn yn yr ysgol. Mae gan ein disgyblion fynediad i ymyraethau amrywiol sydd yn cynnwys ymyraethau arbenigol fel cwnsela, SAP, Ffrindiau Da. Byddwn yn cynnal wythnosau iechyd a lles rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Mae'r awr arbennig ar ddiwedd wythnos yn rhoi cyfle i ddisgyblion rannu a dathlu llwyddiannau a diddordebau, gyda systemau gwobrwyo megis cyrraedd y gol a'r cwpan a system golau traffig, yn deillio o ymagweddau cadarnahol tuag at y dysgu, bywyd ysgol a'n gwerthoedd.

Mae meddylfryd o dwf hefyd yn rhan allweddol o cwricwlwm, a byddwn yn hybu ac yn annog hyn drwy gydol ein dysgu a'n haddysgu.










Mae'r cwricwlwm yn galon i'r ysgol. Mae ein cwricwlwm yn un eang a chytbwys ar gyfer pob oed a gallu, sy'n darparu a chynnig ystod o gyfleoedd a phrofiadau. Ynghlwm a'r cwricwlwm, mae ***4 diben*** *Cwricwlwm i Gymru yn graidd i'r hyn a gynllunir, ac yn treiddio drwy gynlluniau'r ysgol.*



Uchelgeisiol, Galluog

Mentrus, Creadigol

Egwyddorol a Gwybodus


Iach, Hyderus














Sut ydym yn cynllunio ?

Bydd ein cynllunio yn cychwyn o'r **4 diben**, gan ddilyn trywydd thema neu gwestiwn mawr sydd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr gyfrannu at yr hyn maent am ei ddysgu a'i ddarganfod, yn ogystal a'r profiadau yr hoffent ei profi, gan feddwl gyda meddwl agored ac yn drawsgwricwlaidd drwy gydol y broses.

Yr athro fydd wedyn yn llywio'r dysgu a'r addysgu gan ystyried barn a syniadau dysgwyr. Bydd cyfle i'r dysgwyr weithio mewn ffyrdd gwahanol er mwyn gwella eu dysgu.













Y 4 Diben

4 prif nod y cwricwlwm

Mae'r 4 prif nod yn mynd i helpu plant a phobl ifanc i fod yn:

1. Dysgwyr uchelgeisiol a galluog

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n credu ynddyn nhw eu hunain a beth maen nhw'n gallu ei wneud. Maen nhw eisiau dysgu a gwneud yn well. Mae ganddyn nhw'r sgiliau i ddysgu.

2. Mentrus a chreadigol

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n gallu bod yn greadigol a meddwl am syniadau newydd. Maen nhw'n gallu gweithio problemau allan. Maen nhw'n gallu defnyddio hyn yn eu gwaith.

3. Dinasyddion egwyddorol a gwybodus

Mae hyn yn meddwl eu bod nhw'n deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Maen nhw'n cymryd rhan yn eu cymuned. Maen nhw'n edrych ar ôl y byd.

4. Iach a hyderus

Mae hyn yn meddwl bod ganddyn nhw feddwl a chorff iach. Maen nhw'n teimlo'n dda amdanyn nhw eu hunain ac am beth maen nhw'n gredu.






Symud ymlaen – eang a chytbwys

Yn dilyn **4 diben** craidd ein cwricwlwm, mae'r profiadau amrywiol a gynllunir i ddysgwyr ein hysgol yn mynd ar drywydd 6 Maes Dysgu a Phrofiad. Mae tim cwricwlaidd unigol i bob MDPh sydd a chyfrifoldeb o gytuno ar bolisi, a sicrhau cydbwysedd ac amrywiaeth yn y profiadau gan ystyried datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer pob MDPh. Mae'r datganiadau hyn yn gysylltiedig a'r 4 diben ac yn helpu i drefnu'r dysgu er mwyn sicrhau fod dysgwyr yn cael y sgiliau, profiad a gwybodaeth ddisgyblaethol briodol, wrth i bob dysgwr ddilyn llwybr ei taith drwy'r ysgol.







6 Maes Dysgu a Phrofiad

Mae'r cwricwlwm yn rhoi'r rhyddid i ni gynllunio ein cynnwys ein hunain gan ddilyn ein trywyddau dysgu sydd yn unigryw i'n hysgol ni ac sydd yn seiliedig ar :



Y chwe maes dysgu a phrofiad					
Y Celfyddydau Mynegianol	Iechyd a Lles	Dyniaethau	Mathemateg a Rhifedd	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Gwyddonaieth a Thechnoleg
Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.	Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes	Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodo	Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau	Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd	Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau
TRAWSGWRICWLAIDD					
Rhifedd		Llythrennedd		TGCh	
Byddwn yn cynllunio ar gyfer datblygu sgiliau trawsbynciol ar draws y 6 maes dysgu a phrofiad gan wneud defnydd o'r fframweithiau diwygiedig cenedlaethol					


Mae datganiadau '**Yr hyn sy'n Bwysig**' ar gyfer pob maes dysgu yn gysylltiedig a'r 4 diben ac yn helpu i drefnu'r dysgu er mwyn sicrhau fod dysgwyr yn caell sgiliau, profiad a gwybodaeth briodol.



Mae **addysgu ardderchog** yn sail i lwyddiant ein disgyblion. Rydym yn ystyried yr ysgol fel sefydliad sydd yn dysgu, sydd yn dysgu am, ac yn barod i arbrofi ac ymchwilio yn barhaus i ddulliau addysgu effeithiol er budd pob disgybl. Mae'r ffocws hwn yn seliedig ar ein dealltwriaeth a'n hymwybyddiaeth o'r ***12 egwyddor addysgegol.***



Cytuno ar yr hyn ydym am ei gyflawni o fewn pob MDPh


Polisi Un Dudalen – drafft
MDPH: Y Celfyddydau Mynegiannol

Cynnwys / Gofynion / CIG - crynodeb

Mae'r Celfyddydau Mynegiannol yn cwmpasu pum disgyblaeth, sef **celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol.** Mae'r Maes yn annog datblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd fydd o gymorth i ddysgwyr ddal ar bob cyfle fydd yn codi yn eu bywydau, gan wynebu'r heriau. Gall profi'r celfyddydau mynegiannol gynnau diddordeb dysgwyr yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Fel rhai sy'n creu neu fel rhan o gynulleidfa, trwy ymwneud â'r celfyddydau mynegiannol gall dysgwyr ddod i ddeall a gwerthfawrogi diwylliannau a chymdeithasau yng Nghymru a'r byd. Wrth gael mwynhad a boddhad personol drwy fynegiant creadigol, gall dysgwyr ddod yn fwy hyderus, a gall hyn gyfrannu'n uniongyrchol at gyfoethogi eu bywydau.

ASESU AR GYFER DYSGU
- Llais y Plentyn
- Adborth llafar, ysgrifenedig, hunan asesu, asesiad pâr
- Pwerau dysgu
- Meddylfryd Twf
- Cyfleoedd i weithio'n annibynnol ac yn gydweithredol

Unigryw i'r Maes Dysgu?
- Perfformio a Chreu
- Mae'n cwmpasu pum disgyblaeth, sef **celf, cerddoriaeth, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol.**

Asesu / Cynnydd
- Sicrhau bod cynnydd ar hyd y continwwm – cymhlethdod, rheolaeth, dyfnder ac annibyniaeth
- Camau Cynnydd

Trefn Dosbarth / Amserlen wythnos ? ....
- Gwersi Wythnosol
- Heriau yn yr ardaloedd
- Gweithdai ac ymweliadau
- Gwasanaeth Cerdd/Drymiau
- Canu Torfol

Themau / Traws Gwricwlwaidd..

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu– Defnyddio Celf neu ddarn o gerddoriaeth, caneuon neu ffilm i ysgogi ysgrifennu creadigol/sgiliau mynegi barn.


Iechyd a Lles – Cynnig cyfleoedd corfforol mewn dawns i gefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol.

Mathemateg a Rhifedd – Defnyddio gofod , siâp, cymesuredd mewn dawns a chelf. Graddfa a ffracsiynau mewn cerddoriaeth a rhigymau a chaneuon rhif yn y CS.

Dyniaethau -Mae archwilio'r celfyddydau o wahanol gyfnodau, gymdeithasau a diwylliannau yn ysgogi creadigrwydd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg – Ymchwil tonnau sain.Gwybodaeth am natur yn ysgogi darnau creadigol celf ,cerdd, dawns a'r cyfryngau digidol

'Mae'n werth cofio mai calon pob diwylliant yw cân, dawns, celf, crefydd... a storiau. Heb y celfyddydau, nid oes gennym galon – heb ddiwylliant bydd ein haddysg fel llwch ar adain y gwynt'.


Polisi Un Dudalen – drafft
MDPH: Iechyd a Lles

Cynnwys / Gofynion / CIG - crynodeb

ASESU AR GYFER DYSGU

Unigryw i'r Maes Dysgu?

Asesu / Cynnydd:


Canlyniadau PASS
System Eclipse
Craffu llyfrau
Cyfarfodydd Cynnydd


Trefn Dosbarth / Amserlen wythnos ? ....

Sesiynau loga (ar ôl Pasg)
Ysgol Goedwig
Amser Cylch
Grwpiau Lles
SAP/Cownsela/Playtherapy/Lego Therapy
Cymorth Cyntaf
Addysg Gorfforol

Themau/Traws Gwricwlwaidd?

Bl.3/4 -Pwy ydym ni? – Sut mae cŵn yn helpu pobl? Sut mae edrych ar ol cŵn?
Ymwelliad Ceffyl (Horse Sanctuary)
Ailgylchu/newid hinsawdd – llygredd yn y mor/Greta Thunberg
Bl.5/6 – bwlio/astudio stori 'Wonder'
'Colour Monsters' - llyfr teimladau a emosiynau




Polisi Un Dudalen – drafft
MDPH: Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Cynnwys / Gofynion / CIG - crynodeb

Mae dysgu am hunaniaeth a diwylliant drwy ieithoedd yn paratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd. Mae dysgwyr sy'n gwrando ac yn darllen yn effeithiol yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes. Mae dysgwyr sy'n siarad ac yn ysgrifennu'n effeithiol yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith. Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

ASESU AR GYFER DYSGU

Llew Llwyddiant yn mynegi'r sgiliau sydd angen i'r plant eu dysgu / ymarfer (CS). Defnyddir Pinc Perffaith a Melyn Meddwl i roi adborth ar waith ysgrifenedig gan roi pwyslais ar y drafodaeth. Defnyddir wynebau hapus (CS) a phinau porffor (CA2) i asesu pâr a hunan asesu yn erbyn y MPLL.

Unigryw i'r Maes Dysgu ?

Does dim gwefr gwell na gweld y plant yn dysgu'r iaith Gymraeg a dod i garu diwylliant y wlad. Ceisiwn hybu hyn drwy amrywiaeth eang o wethgareddau o ganu i ddysgu patrymau brawddeg wythnosol. Defnyddir rhaglenni ffonolegol megis Tric a Chlic i ddatblygu eu sgiliau darllen yn ogystal a gosod tasgau i hybu uwch-sgiliau darllen plant hyn. Mae mynd i fyd dychmygol y plant yn bwysig i ni fel modd o'u sbarduno i ysgrifennu yn ogystal a sefyllfaoedd real. Rhoddwn gyfleoedd i'r plant arbrofi gyda gwahanol ffurfiau boed hynny'n thematig, ffeithiol neu'n draws-gwricwlaidd. Addysgwn y plant hefyd i gyfathrebu drwy'r iaith Makaton a byddwn yn dathlu ieithoedd a diwylliannau gwledydd eraill.

"One language sets you in a corridor for life. Two languages open every door along the way"

(Gall un laith dy arwain ar hyd coridor mewn bywyd. Gall dwy laith agor pob drws ar hyd y ffordd).

Asesu / Cynnydd

Rydym yn dechrau defnyddio Taith 360 i asesu unigolion a thracio cynnydd yn erbyn Y Pedwar Diben a'r Camau Cynnydd. Asesu ar lawr y dosbarth e.e. Tric a Chlic (CS), Single Word Spelling Test (CA2).

Trefn Dosbarth / Amserlen wythnos ? ....

Patrymau laith wythnosol

Patrymau sillafu (Saesneg) wythnosol (CA2)

Gweithgareddau laith boreuol- darllen, sillafu, llawysgrifen, atalnodi, gwaith llafar


Gwrpaiu gloywi laith (ED) ac ysgrifennu creadigol (HW)

Sesiynnau canu i fwydo laith

Themau / Traws Gwricwlwaidd ?

Dewisir themau agored fel bod lle amlwg i lais y plant a bod rhyddid i fynd ar eu trywydd nhw. Sicrhewn bod amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu medrau llafar, darllen ac ysgrifennu yng nghyd-destun y thema.

Polisi un tudalen yn cynnwys datganiadau o 'Yr hyn sy'n Bwysig' ar gyfer pob MDPh


Polisi Un Dudalen
MDPH: Dyniaethau (+ Addysg Grefyddol)

Cynnwys / Gofynion / CIG - crynodeb

Mae'r maes hwn yn cwmpasu daearyddiaeth; hanes; crefydd, gwerthoedd a moeseg; astudiaethau busnes ac astudiaethau cymdeithasol. Mae'r Dyniaethau yn ganolog i ddysgwyr ddod yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd. Mewn cyd-destunau cyfoes a hanesyddol, gall ymchwilio ac archwilio'r profiad dynol yn eu hardal eu hunain a gweddill Cymru, yn ogystal ag yn y byd ehangach, fod o gymorth i ddysgwyr ddarganfod eu treftadaeth a datblygu ymdeimlad o le a chynefin.

Ein bwriad fel ysgol, ydy rhoi ystod a brofiadau sy'n datblygu dysgwyr sydd yn ymwybodol o'u hardal leol a thu hwnt ac yn dangos balchder ac ongerdd tuag at eu cynefin.

ASESU AR GYFER DYSGU:
- Asesu ar gyfer dysgu (adborth llafar, ysgrifenedig)
- Pwerau Dysgu
- Llais y plentyn
- Partneriaid parabliu
- Meddylfryd Twf

Unigryw i'r Maes Dysgu ?
- Ymdeimlad o le a chynefin
- Gwerthoedd a Moeseg (Addysg Grefyddol)
- Mae Llafur penodol i'w ddilyn mewn Addysg Grefyddol (ALl yn pennu ffocws).
- Cyfleoedd i gael gwersi i ffwrdd o lawr dosbarth (e.e yn rhan o weithgareddau ysgol y goedwig)
- Sicrhau defnydd effeithiol o'r ardal leol a phobl yn y gymuned (e.e mynd i ymweld a lleoliadau/ busnesau lleol/ defnyddio pobl yn y gymuned gydag arbenigedd/ swydd syddi yn cyd fynd a'n thema)

Asesu / Cynnydd:
- Asesu ar lawr dosbarth
- Camau cynydd
- Taith 360
- Cyfarfodydd cynnydd

Trefn Dosbarth / Amserlen wythnos ?
- Gwersi
- Heriau ardaloedd
- Gweithdai ac ymweliadau.
- Gwasanaethau dosbarth/ ysgol.

Themau / Traws Gwricwlwaidd ?

Dylai cynefin fod yn yn ganolog i'r dyniaethau. Cychwyn wrth ein traed (ardal leol) yn gyntaf ac ehangu ymhellach wedyn. Mae ymwybyddiaeth o'u cynefin a balchder yn bwysig iawn i'r maes, a bydd yn sail i'r cynllunio.

Mathemateg a Rhifedd- Gwaith data am ardal leol, cymharu ardal tebyg, gwaith mapio astudio data, pobloga ethau


Iaith a Llythrennedd -Tafodiaith Rhos, Llenorion, Beirdd Awduron Lleol.

Gwyddoniaeth a Thechnoleg- Google Maps, Cynefinoedd, Adeiladau, Byd Natur,

Celfyddydau Mynegiannol- Artistiaid, beirdd, cerddorion lleol.

Iechyd a Lles- Crefydd Moseseg a Gwerthoedd, ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o bobl sydd yn byw yn ein hardal leol. Empathi.

Gall Maes Dysgu o Phrofiad y Dyniaethau gynnau ymdeimlad o ryfeddod, tanio dychymyg ac ysbrydoli dysgwyr i dyfu mewn gwybodaeth, dealltwriaeth a daethineb.


Polisi Un Dudalen – drafft
MDPH: Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Cynnwys / Gofynion / CIG - crynodeb

Nid oes modd gorbwysleisio pwysigrwydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn ein byd modern. Mae datblygiadau yn y meysydd hyn wedi bod yn gyflym iawn ac arwain newid yn ein cymdeithas eriood. Mae'r rhain yn sail i arloesi ac yn effeithio ar fywyd pob un, yn economaidd, yn ddiwylliannol ac yn amgylcheddol. Felly bydd Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn gynyddol berthnasol yn y cyfleoedd y bydd ein hieuenctid ni yn eu profi, a'r dewisiadau y byddan nhw'n eu gwneud mewn bywyd.

Ein gobaith fel Ysgol felly ydy rhoi profiadau ac addysg sy'n datblygu dysgwyr sy'n hyderus ddehnyddio a datblygu gwyddoniaeth a thechnoleg.

ASESU AR GYFER DYSGU

Pwerau dysgu, Mapio syniadau, Asesu Cyfoedion, Adborth llafar, partneriaid parable, cwestiynnu effeithiol.

Unigryw i'r Maes Dysgu ?

Gwyddoniaeth: Datblygu sgiliau penodol i'r maes e.e: cynllunio, rhagfynegi, briffio, trafod cysyniadau a rhesymu, gwerthuso, cynnal arbrofion a defnyddio mesurau, diogelwch a threfnusrwydd arbrofi.

Technoleg: Datblygu sgiliau penodol e.e: defnyddio teclynnau a meddalwedd yn gywir (troi ymlaen, arbed, llwytho, lawrlwytho ay.y.b) diogelwch ar y we, diogelwch offer peryglus fel llif, cynllunio briff/prosiect a gwerthuso.

Asesu / Cynnydd
Taith 360?
Asesu yn erbyn y Fframwaith Cynhwysedd Digidol ac yn erbyn Camau Cynnydd y Maes Dysgu.
Asesiadau personol yn y dosbarth (gweledlin a camau nesaf).
Cysoni disgwyliadau dros yr ysgol/ clwstwr e.e Bydd CS yn defnyddio'r technymau ...


Trefn Dosbarth / Amserlen wythnos ? ....

Pob dosbarth hefo offer TGCh eu hunain a amserlen ar gael.

Offer gwyddoniaeth ar gael (angen cysoni).

Themau / Traws Gwricwlwaidd ?

Mewn Byd sy'n parhau i ddatblygu, datblygu dysgwyr sy'n newid y Byd.


MDPH: Mathemateg a rhifedd

Cynnwys / Gofynion / CIG - crynodeb

Mae cynnydd ym Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd (Maes) yn cynnwys datblygu pum hyfedredd cysylltiedig a rhynddibynnol. Mae ystyried yr hyfedreddau hyn yn hollbwysig wrth i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm er mwyn sicrhau cynnydd dysgwyr.
- Deallterwaeth gysyniadol
- Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau
- Cymhwysedd strategol
- Rhesymu rhesymegol
- Rhuglder

Mae'r hyn sy'n bwysig yn y Maes hwn wedi'i fynegi mewn pedwar datganiad sy'n cefnogi a chadarnhau ei gilydd, ac ni ddylid eu hystyried fel datganiadau ar wahân. Gyda'i gilydd maen nhw'n cyfrannu at wireddu pedwar diben y cwricwlwm.
-Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasedd rhwng rhifau a meintiau.
-Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.
-Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasedd sy'n ymwneud â siap, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
-Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

Mae'r disgrifiadau dysgu yn rhoi canllawiau ar sut y dylai dysgwyr wneud cynnydd o fewn pob datganiad o'r hyn sy'n bwysig ar eu taith ar hyd y continwwm Dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys:-
- Deall pwysigrwydd mathemateg ym mywyd bob dydd
- Hyrwyddo hyder a chymhwyster gyda rhifau a'r systemau rhif
- Hyrwyddo mwynhad o ddysgu trwy weithgaredd ymarferol, archwilio a thrafodaeth
- Datblygu'r gallu i ddatrys problemau trwy wneud penderfyniadau rhesymu mewn amrediad o gyd-destunau
- Datblygu deallturiaeth ymarferol o'r ffyrdd y caiff pwybodaeth ei gasglu a'i gyflwyno
- Archwilio nodweddion siap a gofod, a datblygu medrau mesur mewn amrediad o gyd-destunau.

Asesu / Cynnydd

Mae asesu cynnydd yn digwydd yn barhaus, rydym yn:-

-gwneud asesiadau yn erbyn y camau cynnydd bob hanner tymor,
-gwneud profion cenedlaethol
-gwneud asesiadau rhif ar ddechrau tymor yn y Cyfnod Sylfaen
-cynnal sesiynau ymyraethol yn wythnosol i ddisgyblion mewn grwpiau bach.
-cynnal cyfarfodydd cynnydd adrannol,
-craffu llyfrau bob hanner tymor

ASESU AR GYFER DYSGU

Wrth weithio yn ein sesiynau a gweithgareddau rhif gyda'r disgyblion, rydym yn:-
- defnyddio bodiau asesu - deall, bron yn deall, dim eto,
- asesu cyfoedion a marcio gyda beiro porffor
- defnyddio partneriaid parabliu

Trefn Dosbarth / Amserlen wythnos? ....

Wrth gynllunio rydym yn:-
-Sicrhau bod sesiynau / tasgau ffocws mathemateg a rhifedd yn cael eu gwneud yn wythnosol.
-cynnal sesiwn mathemateg pen dyddiol - CS a CA2.
-cynnal sesiynau rhif dyddiol.
-rhoi heriau yn ein ardaloedd rhifedd
-amserlennu cyfnodau cefnogi i ddisgyblion sydd angen mwy o gymorth drwy SAFMEDS, Power of 1, Power of 2, Dyfal Donc

Unigryw i'r Maes Dysgu?

Ceir profiadau unigryw rhifyddol yn ein hysgol drwy:-
-Ysgol y goedwig,
-Profiadau gwahanol megis sesiynau STEM
-Gargariaeth barhaus
-Ardaloedd her
-Criw Mentrus - sefydlu busnes ac ymdrin gydag arian.
-Cyngorau ysgol - e.e ymdrin gydag arian


Themau / Traws Gwricwlwaidd?

Annogir ddatblygiad sgiliau rhifedd yn darwgwricwlaidd drwy:-
- Ysgol y goedwig,
- themau gydag agweddau hanesyddol/daearyddol,
- gweithgareddau TGCH,
- ardaloedd her tu fewn a thu allan y dosbarth,



Cysylltu'r cynllunio gyda Meysydd Dysgu a Phrofiad

Wrth symud ymlaen i gynllunio profiadau dysgu, bydd y pwyslais ar gynllunio profiadau dysgu cyfoethog, eang ac o ansawdd uchel i'n dysgwyr, sy'n addas i'w hoedran a'u datblygiad. Mae hyn yn cynnwys rhoi digon o amser i osod ffocws ar feithrin sgiliau sylfaenol fydd yn eu galluogi i'w defnyddio oddi mewn i ystod eang o weithgareddau a phrofiadau dysgu.



Medrau Llythrennedd, Rhifedd a Digidol yn rheadru drwy pob MDPh




Gofynion Mandadol
Mae'n rhaid sicrhau fod y disgyblion yn dysgu am:
Grefydd, gwerthoedd a moeseg.
Addysg cydberthynas a rhywioldeb.
Y Gymraeg
Saesneg (CA2)

Mae sicrhau fod yr elfenau canlynol hefyd yn rhan o'r cynllunio yn rhan arall o'n hanfodion cynllunio:
Dysgu yn drawscwricwlaidd.
Mwynhau dysgu
Iechyd & Lles
Cymuned/ Teuluoedd



Cysylltu'r 12 egwyddor addysgeg



Canolbwyntio ar wireddu'r 4 diben	Herio dysgwyr a nodi pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus. Cyfleu disgwyliadau uchel ond cyraeddadwy	Defnyddio cymysgedd o ddulliau addysgu.	Datblygu sgiliau datrys problemau, sgiliau creadigol a'r gallu i feddwl yn feirniadol
Adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol. Ennyn diddordeb.	Creu cyd-destunau dilys	Gweithredu egwyddorion asesu ffurfiannol	Ymestyn oddi mewn ac ar draws y Meysydd Dysgu.
Atgyfnerthu ac ymarfer sgiliau trawsgwricwlaidd - llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.	Datblygu dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain a datblygu fel dysgwyr annibynnol.	Hybu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a chydberthnasau cadarnhaol	Hybu cydweithio.

Meddlyfryd Twf

Partner Trafod

Adborth effeithiol

Pwerau Dysgu

Ardaloedd Dysgu

Cynllunio a themau

Bydd thema neu gwestiwn mawr yn ysgogi'r cyfleoedd ar lawr dosbarth, gyda'r dysgwr a'r athro yn cydweithio yn agos yn y broses gynllunio. Bydd gwybodaeth a gesglir gan y disgyblion yn ffynhonell wybodaeth werthfawr i'r cynllunio. Daw cyfleoedd i ymarfer a datblygu medrau rhif, ieithyddol a digidol yn rhan o'r cynllunio, gyda elfen gryf drawsgwricwlaidd. Mae gweithgareddau a threfn dosbarth dyddiol yn cynnwys gweithgareddau ble rhoddir ffocws ar fedrau sylfaenol, cyfleoedd i weithio o fewn ardaloedd/parthau dysgu, yn ogystal a chyfleoedd i weithio yn yr awyr agored. Drwy'r trefniant dosbarth, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau o fewn sawl cyd-destun yn ogystal a datblygu eu sgiliau annibynnol. Rhoddir cyfleoedd i ddysgu cyflwyno a dehongli eu gwaith mewn sawl dull gwahanol.

Mae cylch thema yn gosod braslun o ran trywyddau dysgu a ffocws MDPh sydd yn sicrhau cydbwysedd profiadau tymor hir. Mae elfen gryf o hyblygrwydd o ran y themau a ddewisir, a bydd sefyllfaoedd a digwyddiadau annisgwyl yn gallu procio ac arwain y dysgu i gyfeiriadau gwahanol .





Rydym ni yn rhan o'r cynllunio !


















Asesu a Chynnydd




Mae dilyniant dysgwyr ar hyd continwwm dysgu rhwng 3 ac 16 oed yn ganolog i'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn defnyddio amrywiol strategaethau asesu a fydd yn galluogi pob dysgwr unigol i wneud cynnydd ar gyflymder priodol, gan sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi a'u herio yn unol â hynny. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau ac adnoddau fel rhan o brosesau ysgol gyfan i fonitro a mesur cynnydd yr unigolyn.

Mae ein trefniadau a dulliau o asesu a monitro yn amrywiol, ac mae'r wybodaeth sydd ar gael ac a ddefnyddir yn amrywio ar draws yr ysgol.

Mae'r cylch asesu yn nodi hanfodion y brosesu o fesur cynnydd er budd datblygiad pob disgybl. Mae ein disgyblion yn ganolog i'n prosesau asesu.





Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Asesu / Disgwyliadau i gyfianwhau CAM CYNNYDD

CAM CYNNYDD 1(3-5) *Dylai'r plentyn ddangos tystiolaeth o fedru ....*	CAM CYNNYDD 2(5-8) *Yn ogystal a disgrifiadau CC1, dylai'r plentyn ddangos tystiolaeth o fedru ....*	CAM CYNNYDD 3(8-11) *Yn ogystal a disgrifiadau CC1&2)dylai'r plentyn ddangos tystiolaeth o fedru ....*
Siarad gyda eraill...	Deall fod pobl yn defnyddio gwahanol ieithoedd a dechrau deall fod nodweddion tebyg a gwahanol rhwng ein heithoedd	Deall cysyltiad a amrywiaeth rhwng iaith, diwylliant a hunaniaith, a chyfathrebu mewn ystod o ieithoedd
Gwybod y gwahaniaeth rhwng seiniau, chwarae a seiniau a geiriau	Dechrau defnyddio gwybodaeth a gyflwynir mewn un iaith a mynegi yng ngeiriau ei hun mewn iaith arall(Cymraeg/Saesneg?)	Deall ac adnabod gwahanol acenion a thafodiaith, derbyn gwybodaeth mewn un iaith at wahanol ddibenion mewn iaith arall
Dilyn gwybodaeth, cyfarwyddiadau, gwrando ar eraill	Gwrando, deall a chyfathrebu yr hyn rwy'n glywed	Gwrando ar, deall ac adalw ystyr yr hyn 'rwyf wedi'i glywed
Gwled perthynas rhwng y gair ysgrifenedig a llafar.	Gwrando ar , deall ac adalw yr hyn dwi wedi glywed	Gwrando ar a deall gwybodaeth, crynhoi , defnyddio ciwiau i ddeall ystyr cyffrediol
Adnabod a darllen geiriau aml eu defnydd, defnyddio cyd-destun a llun i ddeall be dwi'n ddarllen..	Deall gwybodaeth, ymateb i gwestiynau , deall y prif bwyntiau mewn amrywiaeth o gyd-destunau	Darllen testun gan ddewis strategaeth sy'n gymorth, cymharu gwahanol bethau dwi'n ddarllen
Darllen yr hyn dwi wedi ysgrifennu, trafod a mynegi barn syml	Gwrando ar eraill a deall safbwynt / barn gwahanol	Dehongli a dod i gasgliad i ddeall testun, gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth
Gofyn ac ateb cwestiynau i ddeall yn well, ac arbrofi gyda geirfa newydd	Defyddio ystod o strategaethau i ddarllen gyda rhugulder, darllen gwahanol destunau, defnyddio strategaethau i bennu ystyr	Gwrando a darllen i fagu dealltwriaeth o sut mae gramadeg ac atalnodi yn effeithio ystyr, ac i ddatblygu geirfa, ynganiad a strwythur brawddeg, a defnyddio wrth gyfathrebu.
Cynhyrchu nifer o seiniau llafar yn gywir	Darganfod a defnyddio gwybodaeth o wahanol ddeunyddiau 'rwyf wedi ei darllen, darganfod ystyr o destun a delweddau	Adnabod iaith briodol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a dibenion
Cyfathrebu ystyr, defnyddio iaith lafar estynedig a/neu ystum	Darllen ar goedd gyda mynegiant, gan roi sylw i atalnodi	Amrywio mynegiant, geirfa a naws i ennyn diddordeb cynulleidfa Defnyddio geiriau a patrymau 'rwyf wedi ei dysgu ,mewn brawddegau, a chyfathrebu gyda patrymau a brawddegau.
Dechrau cymryd tro mewn sgyrsiau	Ymateb i'r hyn rwy'n ei glywed , ei ddarllen a'i weld, gofyn cwestiwn i ddangos dealltwriaeth.	Addasu a thrin iaith, gwneud dewisiadau priodol ynghylch geirfa a chystrawen wrth fynegi fy hun yn rhugl ac eglur.

Sut ydym yn asesu a monitro cynnydd ?

Asesu dyddiol yr athro drwy adborth parhaus

Teclyn Taith 360 yn offeryn ysgol gyfan i gofnodi a thracio cynnydd

Adborth rheolaidd i rieni a gofalwyr

Asesiadau Rhifedd a Darllen Cenedlaethol yn adnodd gwerthfawr

Polisi asesu yn nodi gweithdrefnau ysgol



Llyfrau asesu, trafodaethau, arsylwadau a gwaith dysgwyr yn cyfrannu at dystiolaeth



Cofnodion canolog i gynnwys data allweddol am gyrhaeddiad unigolion



Taith360

Asesu proffesiynol yn broses ble bydd athrawon yn cyfarfod yn rheoliadd ar gyfer trafodaethau proffesiynol ac i rannu gwaith disgyblion.

Asesiadau PASS yn asesu a monitro agweddau yn ymwneud a lles disgyblion



Defnydd o brofion asesu CATs i asesu a monotro datblygiad gwybyddol

Cofnodi yr hyn yr ydym yn wybod am y disgybl ar gychwyn ei daith yn yr ysgol ar ffurf asesiadau gwaelodlin